NCEPOD

# Hysbysiad Preifatrwydd NCEPOD

## Cyflwyniad

Bwriedir i'r dudalen hon roi gwybodaeth i gleifion, clinigwyr a rhieni/gofalwyr defnyddwyr gwasanaethau y gellid defnyddio'u gwybodaeth ar gyfer gwaith NCEPOD. Mae'n esbonio pa fath o wybodaeth rydym ni'n ei chasglu, pam rydym ni'n ei chasglu a beth y gwnawn ni â'r wybodaeth honno.

Diweddarwyd y polisi preifatrwydd hwn ym mis Chwefror 2020 i fodloni gofynion yr Optio Allan Data Cenedlaethol yn Lloeg. Byddwn yn diweddaru'r polisi preifatrwydd hwn pryd bynnag y newidiwn y math o brosesu rydym ni'n ei gyflawni. Edrychwch ar y dudalen hon yn rheolaidd a gwirio'r polisi hwn rhag ofn y bu newidiadau.

## Ein sail gyfreithiol dros gasglu gwybodaeth

Dyma'r seiliau cyfreithiol ar gyfer casglu a defnyddio data personol:

<u>Tasg Gyhoeddus</u>

Rydym yn casglu dim ond y wybodaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni ein swyddogaeth ac yn osgoi casglu gwybodaeth na chaiff ei defnyddio. Derbynnir y wybodaeth hon oddi wrth ddarparwyr gofal iechyd, fel Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd. I weld pa wybodaeth a gedwir yn eich cofnod gofal iechyd, cysylltwch â'ch Ymddiriedolaeth neu'ch Bwrdd lleol.

*GDPR y DU: Mae prosesu o dan Erthygl 6 (1) (e) yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu i arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd.*

<u>Cydsyniad</u>

Pan fydd pobl yn cofrestru i dderbyn cylchlythyron a diweddariadau, mynychu digwyddiadau neu weithio gyda NCEPOD, rydym yn derbyn cydsyniad i storio a phrosesu data personol.

<u>Contract</u>

Er enghraifft, dyma'r sail a ddefnyddiwn pan fydd angen i ni gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract gyda chi i gyflenwi gwasanaeth i chi, neu i'r gwrthwyneb.

<u>Rhwymedigaeth gyfreithiol</u>

Er enghraifft, dyma'r sail a ddefnyddiwn pan fydd angen i ni gydymffurfio â'r gyfraith (heblaw am rwymedigaethau cytundebol) gan ei fod yn ofynnol i ni gadw dogfennau i'w cyflwyno gerbron achos llys.

<u>Buddiannau dilys</u>

Defnyddir y sail hon i'n galluogi i ddal gwybodaeth fel tystiolaeth pe bai ei hangen arnom yn y dyfodol, er enghraifft os byddwch yn gwneud cais am roi'r gorau i danysgrifio i'n cylchlythyr.

<u>Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin</u>

Rydym yn cymhwyso Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin i'r holl ddata rydym ni'n ei ddal.

*GDPR y DU:* Amod Erthygl 9 ar gyfer prosesu data dan gategori arbennig:

- 2(i) - mae prosesu yn angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, fel amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau ansawdd a

diogelwch uchel gofal iechyd a nwyddau meddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol, ar sail cyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth sy'n darparu am fesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a rhyddidau testun y data, yn arbennig cyfrinachedd proffesiynol
- Atodlen 1(1)(3) 'iechyd y cyhoedd' a gefnogir gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 Rhan 1 adran 2

## Rheolyddion data

Mae HQIP a GIG Lloegr yn reolwyr ar y cyd ar gyfer data NCAPOP Lloegr.
Mae HQIP ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyd-reolwyr ar gyfer data NCAPOP Cymru.

## Pan fyddwn ni'n casglu'ch gwybodaeth

Os claf ydych chi, gallem gasglu'ch rhif GIG a'ch dyddiad geni yn gynnar yn ystod yr astudiaeth pan fyddwn yn casglu rhestr o gleifion sy'n bodloni meini prawf penodol, oddi wrth eich darparwr gofal iechyd.

Os ydych chi'n glinigwr, byddwn yn gofyn am eich enw a'ch cyfeiriad e-bost ac, o bosibl, gwybodaeth arall pan fyddwch yn:

- Llenwi holiadur
- Cofrestru i gael diweddariadau am raglen waith NCEPOD
- Dod yn gyswllt astudio, Adroddwr Lleol, Llysgennad, Adolygwr Nodiadau Achos, aelod o Grŵp Cynghori
- Dod i ddigwyddiad a drefnir gan NCEPOD neu sy'n cynnwys NCEPOD.

Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol a gasglwn wedi dod yn uniongyrchol oddi wrthoch chi. Gallech roi eich enw a'ch gwybodaeth gyswllt i ni, neu ddata personol arall:

- Pan fyddwch yn llenwi ffurflen ar ein gwefan
- Pan fyddwch yn cyfathrebu â ni, er enghraifft os gwnewch ymholiad
- Pan fyddwch yn ymwneud â ni ar y cyfryngau cymdeithasol
- Pan fyddwch yn dod i ddigwyddiad
- Pan fyddwch yn llenwi unrhyw arolygon neu ffurflenni adborth a anfonwn atoch
- Pan fyddwch yn llenwi unrhyw ffurflenni
- Pan fyddwch yn gwneud cais am swydd gyda ni
- Os byddwch yn gweithio i ni neu gyda ni
- Os byddwch yn ymrwymo i gontract gyda ni, er enghraifft os ydych chi'n un o'n cyflenwyr ni neu os ydym ni'n un o'ch cyflenwyr chi
- Os byddwch yn prynu un o'n gwasanaethau neu ein cynhyrchion, neu os byddwn ni'n prynu gennych chi
- Os byddwch yn hawlio treuliau gennym
- Hefyd, gallem gael gwybodaeth amdanoch gan drydydd parti, er enghraifft ein darparwyr gwasanaethau neu ein cyflenwyr, neu gan drydydd parti sydd wedi casglu eich cydsyniad ar ein rhan, neu o ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus, fel y cyfryngau cymdeithasol.

## Y wybodaeth a gasglwn

***Data astudiaeth***

Rydym yn casglu sampl fawr o achosion cleifion yn uniongyrchol oddi wrth ysbytai ar gyfer pob astudiaeth. O hwn, rydym yn dewis achosion ar hap i'w cynnwys mewn adolygiad manwl gan glinigwyr, fel meddygon, nyrsys a ffisiotherapyddion.

Mae'r wybodaeth a gasglwn ar gyfer yr adolygiad o nodiadau achos yn cynnwys:

- Holiadur a lenwyd gan y clinigwr sy'n ymwneud â gofal y claf
- Copïau o gofnodion, adroddiadau a chanlyniadau profion meddygol ysbyty
- Llythyron a chofnodion meddygol gan feddygon eraill a sefydliadau gofal iechyd eraill, fel meddygon teulu.

Ar ôl i'r wybodaeth hon ddod i law, caiff ei gwneud yn gwbl anhysbys a byddwn yn dileu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â phwy yw'r claf, gan gynnwys enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif ysbyty a/neu rif y GIG, neu fanylion unrhyw berthnasau a all fod wedi'u nodi yng nghofnod yr achos.

Ar ôl gorffen pob astudiaeth, byddwn yn dinistrio pob holiadur a chopi o nodiadau achos.  Bydd yr holl wybodaeth am glinigwyr a chleifion a gasglwn yn ystod yr astudiaeth yn cael ei dinistrio hefyd.

Cesglir gwybodaeth sy'n datgelu pwy yw claf, a hynny heb gael cydsyniad y claf, o dan Adran 251 Deddf y GIG 2006 yng Nghymru a Lloegr. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Pwyllgor Cynghori ar Breifatrwydd wedi datgan mai data dienw yn unig y gellir ei ddefnyddio heb gydsyniad.

***Data a gesglir nad yw'n gysylltiedig ag astudiaethau penodol***

- Eich enw
- Eich manylion cyswllt
- Eich rôl a'ch sefydliad
- Gwybodaeth o ffynonellau eraill sydd ar gael yn gyhoeddus (fel y cyfryngau cymdeithasol)
- Os byddwch yn gwneud cais am swydd gyda ni, byddwn yn casglu gwybodaeth am eich hanes cyflogaeth, eich cymwysterau a geirdaon
- Os byddwch yn gweithio i ni, byddwn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol ychwanegol, fel manylion iechyd a manylion ariannol
- Os byddwch yn hawlio treuliau gennym, fel treuliau teithio i gyfarfod, byddwn yn cadw'ch enw a'ch cyfeiriad at ddibenion cyfrifo ac archwilio
- Os byddwch yn llenwi unrhyw holiaduron, arolygon neu ffurflenni adborth, byddwn yn casglu eich profiadau, eich barn ac unrhyw wybodaeth iechyd rydych hi'n hapus i'w rhannu gyda ni
- Os byddwch yn rhyngweithio â'n gwefan, gallem gasglu gwybodaeth dechnegol benodol, fel eich gweithgarwch pori ar ein gwefan a'ch cyfeiriad IP. Mae cyfeiriad IP yn darparu lleoliad y gweinydd rydych chi'n ei ddefnyddio i gysylltu â ni. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau diogelwch y wefan yn unig.

## Sut a pham rydym ni'n defnyddio'r wybodaeth

Prif ddiben gwaith NCEPOD yw archwilio ffactorau y gellir eu newid o ran ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion er mwyn gwella gofal cleifion yn y dyfodol. Ni fydd effaith ar ofal uniongyrchol na

pharhaus i gleifion unigol. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar ddiwedd yr astudiaeth yn argymell ble y gellir gwneud gwelliannau i wella'r gofal i gleifion yn y dyfodol.

I amlygu cleifion/defnyddwyr gwasanaeth y mae'r astudiaethau'n berthnasol iddynt, bydd angen i ni ddefnyddio gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol, fel dyddiad geni, rhif y GIG a chod post. Gall nifer yr achosion sy'n rhan o bob astudiaeth amrywio o 500 i 20,000 o achosion dros gyfnod byr (i sicrhau ein bod yn cael digon o achosion o bob ysbyty yn y Deyrnas Unedig), felly nid yw'n bosibl i ni gael cydsyniad pob claf.

Er mwyn cyflawni'r gwaith hwn yng Nghymru a Lloegr, rydym wedi cael cefnogaeth 'adran 251' i gasglu a defnyddio'r wybodaeth hon o dan amodau cyfrinachedd a diogelwch data llym iawn gan Ysgrifennydd Gwladol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar gyngor y Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd (CAG). Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r gwaith wedi cael ei gefnogi gan y Pwyllgor Cynghori ar Breifatrwydd. Dim ond y bobl sydd angen prosesu'r wybodaeth hon sy'n gallu mynd ati, a bydd yr holl wybodaeth yn anhysbys yn yr adroddiad terfynol. Pan fydd yr astudiaeth wedi'i chwblhau, bydd yr holl ddata'n cael ei ddinistrio'n ddiogel.

Yn ystod yr adolygiad o nodiadau achos, bydd clinigwyr sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer yr astudiaeth yn bwrw golwg ar y gofal a ddarparwyd i bob claf ac yn cymharu ansawdd y gofal a gafwyd gyda safonau cenedlaethol, fel gofynion cyfreithiol neu ganllawiau NICE, a chyda'r safon gofal y byddent yn disgwyl ei weld. Ni fydd adolygwyr achosion yn gwybod pwy yw'r cleifion unigol ac ni fyddant byth yn adolygu achosion o'u hysbyty eu hunain.

Trwy'r broses hon, mae'r adolygwyr yn amlygu agweddau ar ofal y gellid eu cyflawni'n well yn y dyfodol i wella'r gofal i gleifion ym meysydd yr astudiaeth. Rydym yn gofalu ein bod yn sicrhau nad yw'r adroddiad terfynol yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai arwain at ddatgelu pwy yw unigolyn.

Mae holl wybodaeth adnabyddadwy cleifion yn cael ei dinistrio neu ei dileu cyn gynted â phosibl, a hynny heb fod yn fwy na thri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

I gael poster manwl yn esbonio'r wybodaeth y mae NCEPOD yn ei chasglu, cliciwch yma.
Cliciwch yma i weld diagram sy'n amlinellu sut byddwn ni'n defnyddio'ch data.

## Sut rydym ni'n diogelu'ch gwybodaeth

Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb am gadw data personol pobl o ddifrif. Mae gennym bolisïau mewnol sy'n amlinellu ac yn llywio'n diogelwch data. Mae'r holl staff yn cadw at hyn ac yn cael hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu data.

Cedwir gwybodaeth electronig am gleifion a gwybodaeth sefydliadol (fel cronfeydd data, holiaduron ar-lein neu gofnodion iechyd wedi'u sganio, ac ati) ar weinyddion diogel a dim ond staff anghlinigol NCEPOD sy'n gallu mynd at ddata adnabyddadwy cleifion. Rhaid defnyddio cyfrinair i gael at eich data personol ac mae ein gweinyddion yn cael eu monitro'n rheolaidd am wendidau ac ymosodiadau posibl.

Mae ein cyflenwr ar gyfer gweinydd gwefan yr holiadur ar-lein wedi cael caniatâd i gyrchu enwau Adroddwyr Lleol a chyfeiriadau e-bost y GIG drwy'r porthol ar-lein yn unig fel y gellir darparu cymorth technegol wrth iddo gael ei ddatblygu. Mae gweinydd ein holiadur ar-lein wedi'i sicrhau gan amgryptiad SSL hefyd.

Caiff gwybodaeth ar bapur (fel copïau wedi'u hargraffu o gofnodion iechyd) eu storio mewn cypyrddau dan glo yn swyddfa NCEPOD; mae'r swyddfa wedi'i hamddiffyn gan larwm wedi'i chysylltu â'r heddlu. Dim ond gwybodaeth anhysbys a ddefnyddir mewn cyfarfodydd adolygu nodiadau achos. Ein nod yw tynnu manylion adnabod o ddata personol o fewn deufis o'i dderbyn.

Mae NCEPOD yn cadw'r holl gofnodion a gyflenwir gan sefydliadau'r GIG yn gwbl gyfrinachol. Mae Diogelwch Gwybodaeth a Llywodraethu Gwybodaeth yn galw am strwythurau rheoli ac atebolrwydd a phrosesau llywodraethu clir ac effeithiol, polisïau a gweithdrefnau cofnodedig, staff hyfforddedig ac adnoddau digonol. Felly, rydym wedi creu'r dogfennau canlynol i amlinellu'n fanwl y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith gennym.

I weld ein polisïau Diogelwch Gwybodaeth, cliciwch yma.
I weld ein gweithdrefnau Diogelwch Gwybodaeth, cliciwch yma.
I weld ein Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth, cliciwch yma.

Mae gwybodaeth am y ffordd y mae NCEPOD yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (gynt Deddf Diogelu Data 1998), Cyfrinachedd a Chymeradwyaeth Foesegol i'w gweld yma.

## Gyda phwy rydym ni'n rhannu'ch data personol

Nid ydym yn rhannu data cleifion gydag unrhyw un. Gallem rannu data anhysbys, wedi'i brosesu, gyda thrydydd parti o dan gytundeb rhannu data at ddiben dadansoddi ychwanegol, ond ni fydd hwn fyth yn cynnwys data personol, nodiadau achos nac unrhyw beth a allai ddatgelu pwy yw unigolyn.

Bydd enwau Clinigwyr, Adroddwyr Lleol, Llysgenhadon, aelodau Grŵp Cynghori Astudiaeth ac Adolygwyr Nodiadau Achos yn ogystal â staff yn cael eu rhannu fel rhan o waith angenrheidiol cynnal NCEPOD.

## Beth yw eich hawliau dros eich data personol?

Hawl dileu

Gallwch wneud cais yn gofyn i ni beidio â defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch yn ein hastudiaethau a byddwn yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth rydym ni'n ei dal amdanoch yn cael ei dinistrio. Bydd angen gwneud hyn fesul astudiaeth, neu'r unig ffordd y gallem eich tynnu o bob astudiaeth fyddai trwy ddal data personol amdanoch i'w gymharu â'r wybodaeth a dderbyniwn am gleifion.

Hefyd, mae gennych yr hawl i gyfyngu ar brosesu a gwrthwynebu prosesu. Rydym yn trin y rhain yn yr un modd â'r hawl dileu ac yn gwaredu unrhyw wybodaeth amdanoch.

Os byddwch yn penderfynu y byddai'n gwell gennych pe na bai eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, rhowch wybod i ni trwy ysgrifennu atom gan ddefnyddio'r cyfeiriad post neu ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn: mmason@ncepod.org.uk

Hawl mynediad

Mae gennych hawl i weld pa wybodaeth a ddelir amdanoch. Os ydych chi'n glaf, nid ydym yn defnyddio enwau a chyfeiriadau, felly byddai'n rhaid i chi wybod eich rhif y GIG. Mae gennych hawl i gywiro unrhyw ddata sy'n anghywir, ond ni fyddai ei gywiro gyda ni yn newid y wybodaeth yn eich cofnod iechyd ac efallai y byddwch am gysylltu â'ch darparwr gofal iechyd yn uniongyrchol.

I weld pa wybodaeth rydym ni'n ei dal amdanoch chi, cysylltwch â mmason@ncepod.org.uk. Ni chodir tâl am hyn.

| | |
|---|---|
| | **Rydym ni'n:**<br>• defnyddio data personol i helpu gwella gwasanaethau gofal iechyd<br>• cadw pob data personol yn ddiogel ac yn gyfrinachol<br>• rhoi'r hawl i chi optio allan o unrhyw rai o'n hastudiaethau |
| | **Nid ydym ni'n:**<br>• rhannu eich data personol gyda thrydydd partïon<br>• defnyddio data personol na data sy'n datgelu pwy yw rhywun yn ein hadroddiadau |

Optio data cenedlaethol (Lloegr yn unig)

Pryd bynnag y byddwch chi'n defnyddio gwasanaeth iechyd neu ofal, fel mynychu Damweiniau ac Achosion Brys neu ddefnyddio gwasanaethau Gofal Cymunedol, cesglir gwybodaeth bwysig amdanoch chi yng nghofnod claf ar gyfer y gwasanaeth hwnnw. Mae casglu'r wybodaeth hon yn helpu i sicrhau eich bod chi'n cael y gofal a'r driniaeth orau bosibl.

Gellir hefyd defnyddio'r wybodaeth a gesglir amdanoch chi pan fyddwch chi'n defnyddio'r gwasanaethau hyn a'i darparu i sefydliadau eraill fel NCEPOD at ddibenion y tu hwnt i'ch gofal unigol, er enghraifft i helpu gyda:

- gwella ansawdd a safonau'r gofal a ddarperir
- monitro diogelwch
- cynllunio gwasanaethau

Dim ond pan fydd sail gyfreithiol glir i ddefnyddio'r wybodaeth hon y gall hyn ddigwydd. Mae gan NCEPOD gymeradwyaeth i gasglu data o'r fath. Mae'r holl ddefnyddiau hyn yn helpu i ddarparu gwell iechyd a gofal i chi, eich teulu a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae gennych ddewis a ydych am i'ch gwybodaeth gyfrinachol am gleifion gael ei defnyddio fel hyn. Os ydych chi'n hapus â'r defnydd hwn o wybodaeth nid oes angen i chi wneud unrhyw beth. Os dewiswch optio allan, bydd eich gwybodaeth gyfrinachol am gleifion yn dal i gael ei defnyddio i gefnogi'ch gofal unigol.
I ddarganfod mwy neu i gofrestru'ch dewis i optio allan, ewch i www.nhs.uk/your-nhs-data-matters

## Swyddog Diogelu Data

Swyddog Diogelu Data NCEPOD yw Dr Neil Smith. Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy anfon e-bost at nsmith@ncepod.org.uk neu trwy gysylltu â swyddfa NCEPOD ar 0207 251 9060.

## Cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych chi'n anfodlon â'r ffordd rydym ni'n ymdrin â'ch data neu wedi delio â chais, mae gennych hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar https://ico.org.uk/concerns/ neu drwy ffonio 0303 123 1113.

## Cysylltu â NCEPOD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ofyn nad yw eich data'n cael ei gynnwys mewn astudiaeth, cysylltwch â:

Dr Marisa Mason
Chief Executive
NCEPOD
Ground Floor, Abbey House
74-76 St John Street
London. EC1M 4DZ
Ffôn: 0207 251 9060
E-bost: mmason@ncepod.org.uk

Mae gwybodaeth fanylach am waith NCEPOD i'w gweld trwy ddilyn y dolenni canlynol:
Gwybodaeth am NCEPOD
Astudiaethau NCEPOD
Cyhoeddiadau NCEPOD